**Peter Fox OBE AS**
Aelod o'r Senedd dros
Fynwy
—
Member of the Senedd for
Monmouth

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff CF99 1SN
Peter.Fox@Senedd.Cymru

0300 200 7298
@Peterfox_ms
@PeterFox61
Peter Fox AS

Lesley Griffiths AS

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

Llywodraeth Cymru

4 Mai 2023

Annwyl Lesley

Y Bil Bwyd (Cymru): Gwybodaeth ariannol wedi'i diweddaru gan Lywodraeth yr Alban

Ysgrifennaf atoch ynghylch eich llythyr at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ar 20 Ebrill. Diolch am fy nghopïo i mewn i'r llythyr hwn.

Rwy'n ddiolchgar ichi am barhau i ymgysylltu â swyddogion yn Llywodraeth yr Alban ar gostau amcangyfrifedig gweithredu Deddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) 2022. Fel y nodwyd gennych yn gywir yn eich llythyr diweddar, roedd rhai o'r costau amcangyfrifedig ar gyfer y Bil Bwyd (Cymru) a nodir yn fy Memorandwm Esboniadol yn seiliedig ar ragdybiaethau gan ddefnyddio gwybodaeth a gafwyd drwy gysylltu â swyddogion Llywodraeth yr Alban ar eu hamcangyfrifon costau ar gyfer y Bil Cenedl Bwyd Da (Yr Alban). Byddwch hefyd yn ymwybodol imi roi ymrwymiad yn ystod y gwaith craffu ar y Bil Bwyd (Cymru) y byddwn yn ymgysylltu ymhellach â swyddogion yn Llywodraeth yr Alban wrth i'r Bil Bwyd fynd drwy'r broses ddeddfwriaethol yn y Senedd.

Yn eich llythyr rydych yn nodi costau amcangyfrifedig uwch ar gyfer y Ddeddf Cenedl Bwyd Da (Yr Alban) a ddarparwyd ichi gan Lywodraeth yr Alban. Rydych yn mynd ymlaen i ddweud bod y costau uwch hyn yn yr Alban yn golygu bod yr amcangyfrifon a ddyfynnir yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer y costau i Lywodraeth Cymru a chyrff cyhoeddus yng Nghymru o weithredu'r Bil Bwyd (Cymru), yn sicr yn danamcangyfrifon sylweddol. Er nad wyf yn dadlau ynghylch newidiadau i gostau amcangyfrifedig yn yr Alban, nid yw'r datganiad yr ydych wedi'i wneud ynghylch y ffaith bod costau'r Bil Bwyd (Cymru) yn 'danamcangyfrifon sylweddol' yn gywir. Ni ellir mesur costau gweithredu meysydd polisi penodol yn y Bil Bwyd (Cymru) yn syml drwy gymharu'r ffigurau ar draws gwledydd, heb gymharu ffactorau eraill megis sut mae darpariaethau gwahanol y Bil / y Ddeddf yn gweithio'n ymarferol.

Costau Llywodraeth Cymru

Fel y nodir yn y Memorandwm Esboniadol, ac fel yr eglurais yn ystod sesiynau craffu'r Pwyllgor, y cynllun yr wyf wedi'i ragweld ar gyfer y Bil Bwyd (Cymru) yw y byddai'r Comisiwn Bwyd, ar ôl ei sefydlu, yn cymryd rhan fwy blaenllaw o ran ffurfio'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol, nag y mae yn yr Alban. Byddai hyn yn arwain at gostau is i Lywodraeth Cymru na'r gwaith cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban.

Ymddengys hefyd fod rhywfaint o ddryswch yn y tabl yn eich llythyr. Mae cost Llywodraeth Cymru o £20,960 a nodir yn y Memorandwm Esboniadol ar gyfer gwaith i greu'r Strategaeth Fwyd Genedlaethol yn unig. Yn eich llythyr ymddengys eich bod yn awgrymu bod y gost hon hefyd yn cynnwys gwaith Llywodraeth Cymru i sefydlu'r Comisiwn Bwyd. Nid yw hyn yn gywir.

Yn y flwyddyn y caiff y Comisiwn Bwyd ei sefydlu, byddai'r costau'n sylweddol is iddynt fel corff tra byddant yn cael eu sefydlu a bod staff yn cael eu recriwtio. Fodd bynnag, at ddibenion yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ni ostyngwyd yr amcangyfrif o gostau'r Comisiwn Bwyd yn y flwyddyn gyntaf. Roedd hyn er mwyn galluogi adnoddau i gyflawni'r cyfan yr oedd ei angen ym mlwyddyn 1. Roeddem yn rhagweld, ar gyfer y costau blwyddyn 1 hynny, yn hytrach na bod cyllid yn cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru i'r Comisiwn Bwyd, y byddai'r costau hynny (fel y rhai a nodir yn eich llythyr) yn cael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru, ond ni fydd y costau hyn yn ychwanegol at yr amcangyfrif yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

Fel enghraifft, mae'r cyfrifon blynyddol ar gyfer 2017-18 yn dangos bod gwariant Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru (y mis) am y cyfnod adrodd cyntaf, sef 14 mis, ychydig yn llai na dwy ran o dair o'r costau ar gyfer yr ail flwyddyn. Mewn sefyllfa debyg i'r Comisiwn Bwyd, byddai cyfrifo dwy ran o dair o gostau'r flwyddyn ariannol gyntaf ar gyfer yr ystod o gostau a roddir yn y Memorandwm Esboniadol yn golygu y byddai costau'r Comisiwn Bwyd rhwng £250,000 a £500,000 yn is yn y flwyddyn gyntaf. Fel y trafodwyd gyda'r Pwyllgor Cyllid, bydd costau sefydlu a gwaith cychwynnol y Comisiwn yn cael eu talu o fewn y ffigur ariannu hwn ar gyfer blwyddyn 1, ond gallent gael eu hysgwyddo gan staff y Comisiwn Bwyd neu Lywodraeth Cymru.

| | Cyfnod ariannol | |
|---|---|---|
| | 01/02/2016 hyd at 31/03/2017 | 01/04/2017 hyd at 31/03/2018 |
| | £000 | £000 |
| Cyfanswm y Gwariant Cynhwysfawr am y cyfnod | 1,102 | 1,433 |
| Hyd y cyfnod: misoedd | 14 | 12 |
| Cost fesul mis | 78.7 | 119.4 |
| Cyfran o gostau 2017-18 fesul mis | 66% | |

Ffynhonnell: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar gyfer 2017-2018: Datganiadau Ariannol tudalen 1

## Costau'r Comisiwn Bwyd

Mae costau Comisiwn Bwyd yr Alban a amlygwyd yn eich llythyr diweddar yn uwch nag amcangyfrif gwreiddiol Llywodraeth yr Alban a ddarparwyd imi (ar adeg y gwaith craffu ar y Bil Cenedl Bwyd Da (yr Alban)). Fodd bynnag, fel y codais hefyd wrth graffu ar fy Mil, mae maint y sector bwyd yn yr Alban, nifer y cyrff yn y sector cyhoeddus a'r ardal yn sylweddol fwy, sy'n golygu y gallai fod cost uwch yn naturiol i'r Comisiwn Bwyd yn yr Alban.

Er gwaethaf yr uchod, mae amcangyfrifon cost yr Alban sydd wedi'u diweddaru, sef £1.1 miliwn y flwyddyn ar gyfer y Comisiwn Bwyd, ychydig yn is na phwynt canol yr ystod o gostau a roddir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer Comisiwn Bwyd Cymru, y gwnaethom amcangyfrif y gallai fod ag uchafswm amrediad cost o £1.5 miliwn y flwyddyn.

## Costau cynlluniau bwyd

Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer y Bil Bwyd (Cymru) yn nodi'n glir bod y costau sydd wedi'u cynnwys yn ymwneud â llunio'r Cynlluniau Bwyd eu hunain a bydd angen cynnal asesiadau effaith pellach pan gyflwynir rheoliadau. Mae'r costau hyn yn seiliedig ar drafodaethau yr ydym wedi'u cael ag ymarferwyr yng Nghymru. Roedd trafodaethau a gawsom gydag arbenigwyr yn y maes o ran gweithredu cynlluniau bwyd yn awgrymu, er yn ddibynnol ar reoliadau a sut mae awdurdodau lleol yn cydweithredu, y byddai'n deg disgwyl y byddai angen tua un swyddog i bob awdurdod lleol i weithredu cynlluniau bwyd yn y dyfodol. Fodd bynnag, bydd hyn yn berthnasol i asesiadau effaith yr awgrymwyd gennym y byddai eu hangen pan wneir y rheoliadau hyn.

Unwaith eto, mae maint y sector bwyd yn yr Alban, nifer y cyrff yn y sector cyhoeddus a'r ardal yn sylweddol fwy, sy'n golygu y gallai fod cost uwch yn naturiol yn yr Alban ar gyfer creu cynlluniau bwyd lleol.

Wrth inni symud tuag at y ddadl Cyfnod 1 ar gyfer y Bil Bwyd, deallaf fod angen cymaint o eglurder â phosibl ar gostau posibl y Bil. Edrychaf ymlaen at gael adroddiad y Pwyllgor Cyllid ac ymateb i argymhellion y Pwyllgor cyn y ddadl er mwyn helpu i hysbysu Aelodau o'r Senedd. Fodd bynnag, nid wyf yn siŵr a yw'n ddefnyddiol rhoi ffigurau wedi'u diweddaru i Aelodau o'r Senedd, fel y nodir yn eich llythyr, heb hefyd ddarparu'r naratif sydd ei angen i allu deall sut mae hyn yn cyd-fynd â nodau'r Bil Bwyd a sut y bydd yn cael ei weithredu.

Rwy'n anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid a Chadeirydd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig.

Cofion cynnes



Peter Fox, AS Mynwy

Yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil Bwyd (Cymru)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig